**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIADAU ARIANNOL - CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

## ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR

### Cyfansoddiad

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994. Amcanion siartredig y Cyngor yw:

"(a) datblygu a gwella ymarfer y celfyddydau, a gwybodaeth a dealltwriaeth ohonynt;

"(b) cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;

"(c) cynghori a chydweithredu ag Adrannau ein llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyrff eraill ar unrhyw faterion yn ymwneud, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion uchod; a

"(ch) gweithredu'r amcanion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg."

Mae'r Cyngor yn elusen gofrestredig (Rhif: 1034245) a'i hymddiriedolwyr yw'r Aelodau penodedig.

Mae'r Cyngor wedi penodi nifer o Bwyllgorau ac, yn weithredol o 1 Chwefror 2002, Rhestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr i roi cyngor arbenigol ac i wneud penderfyniadau o fewn fframwaith o bwerau dirprwyedig.

### Aelodaeth a chofrestr o fuddiannau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n penodi Aelodau Cyngor Celfyddydau Cymru; dyma'r Aelodau a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2001:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sybil Crouch, Cadeirydd | (i) | Harry James | |
| Dewi Walters (o 14 Mehefin 2001) | | Daniel Jones | |
| Dai Daviers | | Geraint Lewis (hyd at 31 Mawrth 2002) | |
| Roger Davies | | Alan Lloyd (hyd at 31 Mawrth 2002) | (iii) |
| Meg Elis (o 14 Mehefin 2001) | | Janet Roberts (o 14 Mehefin 2001) | |
| Edmond Fivet | | Penny Ryan OBE | |
| Stephen Garrett | | Clare Thomas (hyd at 14 Chwefror 2002) | |
| Ellen ap Gwynn | (ii) | Hazel Walford Davies | (iv) |

Mae cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Baneli Ymgynghorol, ynghyd â chofrestr o fuddiannau gweithwyr cyflogedig y Cyngor ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus, drwy drefniant, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Am o leiaf ran o'r cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn gwasanaethodd aelodau o'r Cyngor (y nodir rhif mewn cromfachau wrth ochr eu henwau yn y rhestr uchod) fel Aelodau hefyd o'r cyrff cyhoeddus canlynol sydd â gweithgareddau tebyg:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | (i) | Dinas a Sir Abertawe | (iii) |
| Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru | (iii) | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | (iv) |
| Y Cyngor Prydeinig yng Nghymru | (i) | Prifysgol Cymru, Aberystwyth | (ii) |
| Cyngor Sir Ceredigion | (ii) | | |

**Atebolrwydd**

Gweithreda'r Cyngor o dan drefn atebolrwydd sy'n cynnwys:

- Deddfau Elusennau 1960 a 1993
- Cyfarwyddiadau ar Bolisi, Cyfarwyddiadau Ariannol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan delerau a26 y Ddeddf Loteri ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd).
- Datganiad Rheolaeth, Memorandwm Ariannol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- pŵer y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth (yr Ombwdsmon) i ymchwilio i faterion y Cyngor.
- Cod Arfer Gorau, sy'n berthnasol i Aelodau a staff, yn disgrifio'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan y sawl sy'n ymwneud â phenderfyniadau ariannol ac yn ymdrin â'r cyhoedd.

Ceir copïau o'r Cyfarwyddiadau ar Gyfrifon a'r Cod Arfer Gorau yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Cyngor.

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 1998, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gyllido'r Cyngor oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1af Gorffennaf 1999. Diwygiodd y Cyngor ei Siarter Frenhinol i'w wneud yn gwbl atebol a chyfrifol i'r Cynulliad, ac i alluogi i'w gyfrif gweithgareddau cyffredinol gael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid yw gweithgareddau dosbarthu Loteri'r Cyngor wedi eu datganoli ac felly mae'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn cael eu harchwilio gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol o dan a35 y Ddeddf Loteri ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd).

**Dosbarthu'r Loteri**

Sefydlodd Deddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd) y Loteri Genedlaethol ('Loteri') er mwyn codi arian i gefnogi achosion da yn y "celfyddydau, chwaraeon, prosiectau treftadaeth genedlaethol, prosiectau elusennol, a phrosiectau i nodi'r mileniwm". Mae'r Cyngor yn un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r arian hwn.

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar ei weithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru â chaniatâd y Trysorlys. Mae'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon y Loteri Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gostau y gellir eu priodoli'n gywir i weithgareddau'r Loteri Genedlaethol gael eu talu o incwm y Loteri. Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi cyfrif ar wahân am ei weithgareddau eraill.

Mae'r Cyngor wedi penodi tri phwyllgor ymgynghorol, Cyfalaf, Celfyddyd i Bawb a Ffilm, i gynnig argymhellion iddo ynghylch polisi dosbarthu'r loteri ac ynghylch ceisiadau unigol am grant. Sefydlwyd y Pwyllgor Ffilm, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Hydref 1999, er mwyn galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i gael gafael ar wybodaeth arbenigol yn y maes hwn. Fel rhan o gynlluniau ailstrwythuro'r Cyngor cafodd y Pwyllgor Celfyddyd i Bawb ei ddirwyn i ben ar 31 Ionawr 2002 ac erbyn hyn bydd aelodau o restr gymeradwy o Ymgynghorwyr Cenedlaethol yn cynorthwyo yn y gwaith o asesu ceisiadau am grant refeniw. Cyflogwyd aseswyr annibynnol allanol i roi cyngor ar bob cais am grant y Loteri gwerth £100,000 neu fwy. Y Cyngor sydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar ddyfarnu grantiau Cyfalaf dros £250,000, grantiau Celfyddyd i Bawb dros £100,000 a phob grant Ffilm.

Aelodau y Pwyllgor Cyfalaf a wasanaethodd yn ystod y cyfnod ers 1 Ebrill 2001 oedd:

Roger Davies, Cadeirydd
John Bevan
Alun Bond
Harry James
Lyn Jones
Richard Morgan

Aelodau y Pwyllgor Celfyddyd i Bawb a wasanaethodd yn y cyfnod ers 1 Ebrill 2001 hyd 31 Ionawr 2002 oedd:

Alan Lloyd, Cadeirydd
Caroline Clark
Gareth Griffiths
Margaret Jervis
Jacqueline Palit
Eileen Roberts
Ian Rowlands
Hazel Walford Davies

Aelodau y Pwyllgor Ffilm a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2001 oedd:

| | |
|---|---|
| Daniel Jones, Cadeirydd | Lyn Jones |
| David Gillam | Clive Myer |
| Marie Gillespie | Huw Pennallt Jones |

**Prif weithgareddau dosbarthu'r Loteri**

Sefydlwyd yr Is-adran Loteri gan y Cyngor i reoli'r broses o ddosbarthu arian y Loteri. O dan delerau'r Cyfarwyddiadau ar Bolisi, mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i gefnogi prosiectau cyfalaf, ffilm a phrosiectau eraill o dan y cynllun Celfyddyd i Bawb, sy'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru, ac yn monitro defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny.

Cafodd yr Is-adran Loteri 627 o geisiadau yn ystod y flwyddyn (2001: 645) gyda 140 ohonynt am gynlluniau cyfalaf, yn cynnwys 33 am gynhyrchiadau ffilm, a 487 am gynlluniau Celfyddyd i Bawb. Cynigiwyd cyfanswm o 572 (2001: 492) o grantiau gan wneud cyfanswm o £13,356,000 (2001: £13,904,000), ac o'r swm hwn yr oedd £6,166,000 yn grantiau cyfalaf, yn cynnwys £831,000 i ffilm, a £7,190,000 yn grantiau Celfyddyd i Bawb. Roedd yr ymrwymiadau (h.y. grantiau a dderbyniwyd ond nas talwyd eto) ar ddiwedd y flwyddyn yn £35,994,000; roedd £28,156,000 ar gyfer grantiau cyfalaf a £7,838,000 ar gyfer grantiau Celfyddyd i Bawb.

**Canlyniadau ariannol**

Mae cyfrifon Dosbarthu'r Loteri yn dangos cyfran o enillion y Loteri Genedlaethol yn 2001/2002 sef £13,801,000 (2001: £12,899,000). Roedd cyfran yr incwm i'r celfyddydau ar y lleiafswm statudol o 5% hyd at 17 Mai 1999 er mwyn cyflenwi y lefel ariannu angenrheidiol i Gomisiwn y Mileniwm a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Aeth y gyfran i'r Celfyddydau yn ôl i 16 2/3% o 17 Mai 1999, a pharhaodd ar y lefel honno am weddill cyfnod trwydded Camelot. Er bod cyfran enillion y Cyngor o'r Loteri Genedlaethol am gyfnod yn ystod 1998-99 a 1999-2000 wedi gostwng, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi datgan bod ymrwymiad wedi ei wneud gan Gweinidogion y bydd cyfran y celfyddydau yn parhau yn 16 2/3% o Fedi 2001, y tu hwnt i gyfnod gwreiddiol trwydded Camelot.

Mae cyfrifon Dosbarthu'r Loteri yn dangos gostyngiad mewn cronfeydd yn y flwyddyn o £1,742,000 (2001: gostyngiad o £2,380,000) a drosglwyddwyd o'r gronfa wrth gefn. Gwnaethpwyd cynigion grant yn y flwyddyn o £13,356,000, (2001: £13,904,000). Cofnodir £15,649,000 (2001: £15,779,000) fel gwariant grant, sy'n adlewyrchu cynigion a wnaethpwyd yn y flwyddyn hon ac mewn blynyddoedd blaenorol, ac a dderbyniwyd yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn hon. Roedd ymrwymiadau amhenodol ar 31 Mawrth 2002 nas cofnodwyd fel gwariant yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn gyfanswm o £2,014,000 (2001: £5,615,000).

Mae'r cyfrifon yn dangos diffyg o £2,198,000 yn y cronfeydd (2001: diffyg o £456,000). Cododd y sefyllfa yn 2001 ac mae'n parhau yn 2002 oherwydd polisi y Cyngor o or-ymrwymo, sydd yn cael ei annog gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (gweler hefyd nodyn 1(b)). Yn ogystal ag ymrwymo y gyllideb gyfan am y flwyddyn bresennol, mae'r Cyngor hefyd yn cael ymrwymo fel grantiau hyd at 50% o'r gyllideb ragdybiedig ar gyfer yr ail flwyddyn a 30% o'r gyllideb ragdybiedig ar gyfer y drydedd flwyddyn.

**Datblygiadau yng ngweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn y dyfodol**

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd Cyngor y Celfyddydau yn parhau i ariannu prosiectau yn unol â'i Strategaeth 5 Mlynedd. Datblygir Strategaeth Gyfalaf newydd, a gweithredir y cynlluniau symlach sydd newydd eu cyflwyno. Parheir i roi grantiau am ffilm, ond trosglwyddir y cyfrifoldeb dros asesu ac argymell y grantiau hyn i Sgrîn. Nod y Cyngor ar sail ei flaenoriaethau strategol yw sicrhau y caiff grantiau eu dosbarthu'n deg ledled Cymru ac ar draws ffurfiau ar gelfyddyd. Bydd y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu grantiau sydd â'r nod o fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac ariannu mentrau sydd hefyd yn defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

**Asedau sefydlog**

Trosglwyddwyd asedau sefydlog yr Is-adran Loteri, sydd wedi'u dibrisio'n llawn, i fantolen cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol y Cyngor.

**Cyflogeion anabl**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Mae'r Cyngor yn anelu'n arbennig at sicrhau nad yw unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai gwirioneddol yn cael eu trin yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws fel rhiant, cenedl, cred wleidyddol, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

Mae'r Cyngor ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd, sy'n adlewyrchu ei ymrwymiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer cyflogeion anabl.

**Cyfathrebu â chyflogeion**

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undeb llafur Amicus-MSF, ac mae wedi llunio cytundeb trefniadol gyda'r undeb hwnnw; bydd cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n peri pryder. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd adrannol yn rheolaidd ac mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr roi adroddiad i'w staff ar faterion a drafodwyd yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd wythnosol yr Uwch Dîm Rheoli.

**Ailstrwythuro**

Cyflwynodd y Cyngor ei strwythur newydd ym mis Chwefror 2002, a'i gynlluniau grant newydd o fis Ebrill 2002.

Mae'r strwythur newydd wedi'i gynllunio i lunio ymagwedd strategol tuag at ddatblygu'r celfyddydau gan arwain gweithgaredd y Cyngor a'i waith o roi grantiau, mwy o ddatganoli i swyddfeydd lleol, cynlluniau grant symlach a phroses o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cododd llawer o'r costau ailstrwythuro yn ystod blwyddyn ariannol 2001/2002, ond darparwyd ar gyfer y costau hynny a fydd yn codi yn ystod 2002/2003.

**Talu credydwyr**

Mae'n bolisi gan y Cyngor i dalu cyflenwyr o fewn y telerau masnach y cytunir arnynt ac ufuddhau'n gyffredinol i egwyddorion Cod y CBI - "Prompt Payments". Talwyd 98% o'r anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr yn ystod 2001/2002 (2000/2001 : 97%) o fewn y telerau contract y cytunwyd arnynt.

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo**

O dan Adran 35 Deddf Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon am y cyfnod ariannol o'i weithgareddau dosbarthu'r Loteri, ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru â chaniatâd y Trysorlys.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o faterion Is-adran Loteri'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i Incwm a'i Wariant a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- cydymffurfio â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynghylch cyfrifo a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- barnu a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac egluro unrhyw wahaniaethau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd yr Is-adran Loteri'n parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pennu'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo'r Cyngor. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros wedduster a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus a thros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddir gan y Trysorlys.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifo
12 Gorffennaf 2002

Sybil Crouch
Cadeirydd
12 Gorffennaf 2002

**DATGANIAD AR RHEOLAETH FEWNOL**

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros sicrhau y cynhelir system effeithiol o reolaeth fewnol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus y bwriedir iddi nodi'r prif risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, gwerthuso natur a graddau'r risgiau hynny a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol a darbodus. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried argymhellion sy'n deillio o adolygiadau mewnol ac allanol o'n gweithgareddau. Cyflwynwyd y broses yn rhan olaf y flwyddyn yn dilyn yr egwyddorion a gynhwysir yn arweiniad Trysorlys EM. Mae hyn yn ystyried yr amser sydd ei angen i ymgorffori'n llawn y prosesau y mae'r Cyngor wedi cytuno y dylid eu sefydlu a gwella eu cadernid.

Rydym wedi cynnal gweithdai rheoli risgiau lle y nodwyd amcanion a risgiau'r Cyngor ac wedi pennu strategaeth rheoli ar gyfer pob risg sylweddol. O ganlyniad i'r gweithdai hyn, sefydlwyd cofrestr risgiau sy'n nodi agwedd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion. Yn ystod y flwyddyn mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ystyried rheoli risgiau ac wedi cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor.

Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn parhau i ystyried rheoli risg a rheoaleth fewnol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod a bydd asesiad risg a rheoli llawn cyn cyflwyno adroddiad ar y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2003. Ymgorfforwyd rheoli risgiau yn llawnach ym mhrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn parhau i dderbyn adroddiadau cyfnodol gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio o ran rheolaeth fewnol a byddwn yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar y camau y maent yn eu cymryd i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb hwy gan gynnwys adroddiadau ar gynnydd prosiectau allweddol.

Yn ogystal â'r camau a grybwyllwyd uchod, yn y flwyddyn i ddod mae'r Cyngor yn bwriadu:

- cyflwyno rhaglen o hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o risgiau;
- sefydlu system o ddangosyddion perfformiad a risg allweddol; a
- datblygu a chadw cofrestr o bob sefydliad, er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn caffael gwasanaeth archwilio mewnol o dan gontract gan gwmni o Gyfrifwyr Siartredig (yr "archwilwyr mewnol"). Mae'r cwmni hwn yn gweithredu i safonau sydd wedi eu diffinio yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol yn cael ei lywio gan ddadansoddiad o'r risg sydd yn wynebu'r Cyngor, ac mae'r cynlluniau blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Mae'r dadansoddiad o'r risg a'r cynlluniau archwilio mewnol yn cael eu cadarnhau ar ran y Swyddog Cyfrifo ac yn cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio y Cyngor. O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol yn rhoi adroddiad i mi ar weithgaredd archwilio mewnol y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwilwyr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Cyngor o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sydd yn arolygu gwaith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yn y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifo
12 Gorffennaf 2002

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD AC AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 8 i 16 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd o ganlyniad i ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 10 a 11.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 5 mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Caiff fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, eu sefydlu drwy statud a'u llywio gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gânt eu paratoi yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno, ac ym mhob ystyr berthnasol a gafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifo addas, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatgan ymddangosiadol neu unrhyw anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Cyngor ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system rheolaeth ariannol fewnol'. Adroddaf os nad yw'n ateb y gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a wneir gan y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a fyddent wedi'u hachosi drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob achos perthnasol, wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun gwir a theg o faterion Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2002 ac o'r gostyngiad mewn cronfeydd, cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ac o'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ayb. 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chyfarwyddiadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno; ac

- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

John Bourn　　　　　　　　　　Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

23-24 Parc y Plas
Caerdydd CF10 3BA

19 Gorffennaf 2002

**CYNGOR CELFYDYDDAU CYMRU**
**CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI**

**CYFRIF INCWM A GWARIANT**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002**

| | Nodiadau | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Cyfran o enillion y Loteri Genedlaethol | 6 | 13,801 | 12,899 |
| Incwm buddsoddi ar y gweddill yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 6 | 1,600 | 1,571 |
| Grantiau derbyniadwy | | 26 | 115 |
| Llog derbyniadwy | | 82 | 73 |
| Grantiau ad-daladwy | | 26 | 54 |
| Cyfran o elw ffilm a ariannwyd gan y Loteri | | 51 | - |
| **Cyfanswm incwm** | | **15,586** | 14,712 |
| **Gwariant** | | | |
| Gwariant ar y celfyddydau: | | | |
| Ymrwymiadau grant net a wnaed (penodol) | 9b | 15,649 | 15,779 |
| Costau uniongyrchol dosbarthu grantiau | | 75 | 105 |
| | | 15,724 | 15,884 |
| Rheoli a gweinyddu: | | | |
| Costau staff | 2 | 777 | 678 |
| Costau gweithredu | 4 | 626 | 689 |
| Disbrisiant | 5 | - | 14 |
| | | 1,403 | 1,381 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **17,127** | 17,265 |
| **Gwariant yn fwy nag incwm ar gyfer y flwyddyn** | | **(1,541)** | (2,553) |
| Gwarged nas gwireddwyd/(colled) ar fuddsoddiad yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 6 | (201) | 173 |
| **Gostyngiad yng Nghronfeydd y Loteri am y flwyddyn** | 11 | **(1,742)** | (2,380) |

Nid oes unrhyw weithgareddau nad ydynt yn parhau.

Nid oes unrhyw enillion neu golledion ac eithrio'r rhai a ddangosir isod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 16 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI**

**MANTOLEN**
**ar 31 Mawrth 2002**

| | Nodiadau | | **2002** £'000 | | 2001 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 5 | | - | | - |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Buddsoddiadau – gweddill a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 6 | 32,547 | | 28,066 | |
| Dyledwyr a blaendaliadau | 7 | 3 | | 17 | |
| Arian parod | | 1,489 | | 692 | |
| | | 34,039 | | 28,775 | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr eraill | 8 | (243) | | (191) | |
| Darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant (penodol) | 9b | (10,238) | | (14,137) | |
| | | (10,481) | | (14,328) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 23,558 | | 14,447 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 23,558 | | 14,447 |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 10 | | **-** | | (21) |
| | | | **23,558** | | 14,426 |
| **Ariennir gan:** | | | | | |
| Darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn (penodol) | 9b | | 25,756 | | 14,882 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 11 | | (2,198) | | (456) |
| | | | **23,558** | | 14,426 |

Cymeradwyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddau Cymru ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifo
12 Gorffennaf 2002

Sybil Crouch
Cadeirydd
12 Gorffennaf 2002

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 16 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI**

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002**

| **Cysoni'r cynnydd/(gostyngiad) mewn cronfeydd Loteri** | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad mewn cronfeydd Loteri | (1,742) | (2,380) |
| Dibrisiant | - | 14 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr a blaendaliadau | 14 | 55 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant | 6,975 | 5,886 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr eraill | 52 | (184) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | (21) | 21 |
| **Llif arian net i mewn o weithgareddau gweithredu** | **5,278** | 3,412 |

| **DATGANIAD LLIF ARIAN** | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Llif arian net i mewn o weithgareddau gweithredu | 5,278 | 3,412 |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | - | - |
| **Cynnydd mewn arian ac yn y gweddill a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol** | **5,278** | 3,412 |

| **Cysoni'r llif arian net i'r symudiad mewn cronfeydd net** | **2002 £'000** | 2001 £'000 | **Newid yn y flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod | 797 | (84) | 881 |
| Cynnydd yn y gweddill a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 4,481 | 3,496 | 985 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 28,758 | 25,346 | 3,412 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth** | **34,036** | 28,758 | **5,278** |

Roedd y cronfeydd net ar 31 Mawrth 2002 yn cynnwys arian a gedwir gan y Cyngor o £1,489,000 a gweddill a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o £32,547,000.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 16 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**
**Am y flwyddyn a ddaeth i beth 31 Mawrth 2002**

## 1 Polisïau cyfrifo

### a Confensiynu cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi ei haddasu i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifo a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 1985 a Datganiadau o Arferion Cyfrifo Safonol, a Safonau Adrodd Ariannol a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled ag y bo'r gofynion hynny yn briodol. Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor roi adroddiad ar warged neu golled cost hanesyddol.

### b Busnes byw

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi ar sail busnes byw ar y dybiaeth y bydd cyllid yn parhau i fod ar gael gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r dybiaeth yn ddibynnol ar lefel gwerthu tocynnau loteri yn y dyfodol, na ellir eu sicrhau. Mae gan y Cyngor fodd bynnag yr hawl i ymrwymo cyllid ar sail incwm ragdybiedig y dyfodol, fel yr esboniwyd ar dudalen 3 o'r datganiadau ariannol hyn.

### c Gweithgareddau cyffredinol

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu gweithgareddau cyffredinol y Cyngor, a ariennir yn bennaf drwy gymorth grant; paratowyd datganiadau ariannol ar wahân yn eu cylch yn unol â'r cyfarwyddiadau gwahanol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### ch Ymrwymiadau grant

Gwahaniaethir rhwng grantiau a wneir gan ddosbarthwyr y Loteri rhwng 'ymrwymiadau penodol' ac 'ymrwymiadau amhenodol'. Ceir ymrwymiadau penodol, sy'n cael eu cynnwys fel gwariant yn y datganiadau ariannol, pan fo'r Cyngor wedi cynnig grant yn ffurfiol a'r cynnig hwnnw (ynghyd â'r amodau priodol) wedi ei dderbyn gan y derbynnydd. Digwydd ymrwymiadau amhenodol, a gofnodir mewn nodyn ar y datganiadau ariannol, pan fo'r Cyngor wedi cytuno i gynnig grant ond pan nad yw'r cynnig, ar ddiwedd y flwyddyn, wedi ei dderbyn yn ffurfiol gan y derbynnydd.

Cydnabyddir ymrwymiadau penodol sy'n daladwy o fewn blwyddyn i ddiwedd y flwyddyn yn y fantolen fel rhwymedigaethau cyfredol. Dangosir y rhai hynny sy'n daladwy fwy na blwyddyn ar ôl dyddiad y fantolen gan egluro hynny.

### d Cronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol

Nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros fuddsoddi cronfeydd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r gweddill a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, dangosir cyfran gweddill o'r fath y gellir ei phriodoli i'r Cyngor, yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y fantolen, hysbysodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu bod ar gael i'w dosbarthu gan y Cyngor mewn perthynas ag ymrwymiadau cyfredol neu ymrwymiadau yn y dyfodol.

### dd Asedau Sefydlog

Mae asedau sefydlog yr Is-adran Loteri, a ddibrisiwyd yn llawn, wedi eu trosglwyddo i fantolen cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol y Cyngor.

### e Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr wedi ei dderbyn o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r cynllun pensiwn yn darparu buddiannau diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Telir costau cyfraniadau'r Cyngor drwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion.

**f Trethiant**

Codir Treth Ar Werth na ellir ei hadennill, sy’n deillio o wariant, ar y Cyfrif Incwm a Gwariant neu fe’i cyfalafir fel ased sefydlog lle bo hynny’n berthnasol.

**ff Dosrannu costau rheoli a gweinyddu o’r Gweithgareddau Cyffredinol**

Mae’r Cyngor yn mynd i gostau sy’n cefnogi ei weithgareddau cyffredinol a swyddogaeth dosbarthu’r loteri. Yn unol â’r Cyfarwyddyd Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae’r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgaredd hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar yr adnoddau perthnasol neu’r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd gan y gweithgareddau priodol.

## 2 Costau staff

| | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau y gellir eu priodoli’n uniongyrchol i staff yr Is-adran Loteri | 337 | 357 |
| Yswiriant Gwladol Cyflogwyr | 23 | 25 |
| Cyfraniadau pensiwn | 39 | 43 |
| | 399 | 425 |
| Cyfran y cyflogau gweithgareddau cyffredinol a delir gan weithgaredd dosbarthu’r Loteri | 222 | 237 |
| Yswiriant Gwladol Cyflogwyr | 18 | 15 |
| Cyfraniadau pensiwn | 22 | 23 |
| Costau Diswyddo | 116 | - |
| | **777** | 700 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgorfforir costau staff yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Rheoli a gweinyddu: | | |
| - Costau staff | 777 | 678 |
| Costau uniongyrchol dosbarthu grantiau: | | |
| - Costau staff cynllun Gŵyl y Mileniwm | - | 22 |
| | **777** | 700 |

Yr Uwch Dîm Rheoli, sy’n cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a’r Cyfarwyddwyr, sy’n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau’r Cyngor. Roedd cydnabyddiaeth wirioneddol yr Uwch Reolwyr fel a ganlyn, a chaiff 37% ohoni ei chynnwys yn y datganiadau ariannol a chodir y gweddill ar y cyfrif gweithgareddau cyffredinol:

| **Enw a swydd** | **Oedran ar 31 Mawrth 2002** | **2002 Band Cyflog** £’000 | **2002 Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 65 oed** £ | **2002 Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2002** £ |
|---|---|---|---|---|
| Peter Tyndall<br>*Prif Weithredwr (o 1 Hydref 2001)* | 46 | 25-30 | 355 | 355 |
| Frances Medley<br>*Prif Weithredwr Dros Dro (hyd at 30 Medi 2001)/ Dirprwy Brif Weithredwr (o 1 Hydref 2001)* | 32 | 40-45 | 3,142 | 3,672 |
| Hywel Tudor<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Canolog (o 21 Ionawr 2002)* | 44 | 5-10 | 101 | 101 |
| Rhys Parry<br>*Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau* | 33 | 45-50 | 548 | 1,234 |
| Siân Tomos<br>*Cyfarwyddwr – Gogledd Cymru (o 1Tachwedd 2001)* | 41 | 10-15 | 407 | 2,509 |
| David Newland<br>*Cyfarwyddwr – De Cymru (o 1 Mawrth 2002)* | 37 | 0-5 | 41 | 41 |
| Sandra Wynne<br>*Cyfarwyddwr Datblygu Mynediad (hyd at 31 Ionawr 2002)* | 48 | 25-30 | 567 | 9,331 |

| Name and position | Oedran ar 31 Mawrth 2002 | 2002<br>Band Cyflog<br>£'000 | 2002<br>Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 65 oed<br>£ | 2002<br>Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2002<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Michael Baker<br>*Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau (hyd at 31 Ionawr 2002)* | 51 | 95-100 | 1,008 | 10,524 |
| Richard Turner<br>*Cyd-gyfarwyddwr y Loteri Dros Dro (hyd at 31 Ionawr 2002)* | 38 | 25-30 | 536 | 1,943 |
| Katherine Davies<br>*Cyd-gyfarwyddwr y Loteri Dros Dro (hyd at 31 Ionawr 2002)* | 38 | 25-30 | 1,401 | 5,351 |

Yn achos y cyfarwyddwyr hynny sydd wedi gadael y Cyngor erbyn hyn, mae'r taliadau uchod yn cynnwys taliadau diswyddo. Cynhwysir y taliadau hyn yng nghyfanswm y costau diswyddo a ddatgelir uchod.

Ni thelir y Cadeirydd, y Cyngor, nac Aelodau Pwyllgorau am eu gwasanaethau.

Ymddiswyddodd y Prif Weithredwr blaenorol ar 22 Medi 2000, a phenodwyd y Cyfarwyddwr Cynllunio yn ei lle dros dro. Penodwyd Prif Weithredwr newydd ar 1 Hydref 2001 am gyfnod o bum mlynedd a phenodwyd y Prif Weithredwr dros dro yn Ddirprwy Brif Weithredwr o'r un dyddiad.

Cyfanswm taliadau gwirioneddol y tri Phrif Weithredwr, a ddadansoddir yng nghyfrif Gweithgareddau Cyffredinol y Cyngor, oedd £57,630 (2000/2001: £76,481) a chodwyd 37% ohonynt ar weithgareddau'r Loteri. Neilltuir 20% o amser Cyfarwyddwyr y Loteri i'r Gweithgareddau Cyffredinol sy'n adlewyrchu'r cyfraniad a wnaed i reoli'r Cyngor yn gyffredinol. Ni dderbyniodd unrhyw gyflogai arall gydnabyddiaeth (ac eithrio costau pensiwn) a oedd yn fwy na £40,000.

Roedd nifer misol y cyflogeion ar gyfartaledd a oedd yn gweithio'n uniongyrchol ar weithgareddau'r Loteri fel a ganlyn:

| | **2002** | 2001 |
|---|---|---|
| | No | No |
| Rheoli gweithrediadau'r Loteri | 1 | 1 |
| Gweithredol | 8 | 10 |
| Gweinyddol | 7 | 8 |
| | 16 | 19 |

Cyflogwyd staff gan yr Is-adran Loteri i gyflawni'r cynlluniau Cyfalaf, Ffilm a Chelfyddyd i Bawb, a darparant gymorth gweithredol a gweinyddol i'r gwaith o ddosbarthu grantiau. Sicrhaodd yr Is-adran fod ganddi staff ymhob un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru i wella hygyrchedd i'r cyhoedd i'r eithaf.

## 3 Costau pensiwn

Mae mwyafrif y staff sy'n gweithio ar weithgareddau'r Loteri yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiannau diffiniedig lle na nodir cyfran y Cyngor o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd annibynnol o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 ar 1 Ebrill 1999 gan ddefnyddio'r Dull Uned Amcanol. Gwerth marchnad asedau'r Cynllun ar 31 Mawrth 1999 oedd £29.0m a daeth yr actiwari i'r casgliad fod yr asedau yn cwmpasu rhwymedigaethau cronedig yn llawn ar y dyddiad hwnnw. Y prif dybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd oedd y byddai elw o fuddsoddi yn 8% y flwyddyn, byddai codiadau cyflog yn 5.5% y flwyddyn a chodiadau pensiwn yn 4% y flwyddyn. Cyfraniadau'r Cyngor a'i gyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd 13% (2000/2001: 13%) a 0% (2000/2001:0%) o'r cyflogau taladwy. Mae cyflogeion yn cyfrannu 1.5% i sicrhau buddiannau pensiwn i'w gŵyr/gwragedd.

**4 Costau gweithredol**

| | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Recriwtio, hyfforddi a chostau staff eraill | 64 | 65 |
| Archwilio | 13 | 12 |
| Rhai sy'n monitro grantiau, ymgynghorwyr a ffioedd cyfreithiol cysylltiedig | 94 | 108 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 80 | 107 |
| Hyrwyddo'r Loteri a gwybodaeth | 10 | 38 |
| Adeiladau | 74 | 79 |
| Teithio a chynhaliaeth | | |
| - Aelodau | 20 | 22 |
| - Cyflogeion | 28 | 27 |
| Costau rhedeg swyddfa | 117 | 94 |
| Tâl a godir am ddefnyddio asedau sefydlog | 40 | 45 |
| TAW na ellir ei hadennill | 45 | 40 |
| Ailstrwythuro (nodyn 10) | 41 | 39 |
| Darpariaeth ar gyfer Drwgddyledion | - | 13 |
| | **626** | 689 |

**5 Asedau sefydlog diriaethol**

| | **System, offer cyfrifiadurol** £'000 |
|---|---|
| Cost | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 135 |
| Trosglwyddo i Weithgareddau Cyffredinol | (135) |
| Ar 31 Mawrth 2002 | - |
| Dibrisiant | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 135 |
| Trosglwyddo i Weithgareddau Cyffredinol | (135) |
| Ar 31 Mawrth 2002 | - |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2002 | - |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2001 | - |

Gostyngwyd yr asedau sefydlog i werth llyfr net o ddim ar 31 Mawrth 2001 ac fe'u trosglwyddwyd i fantolen y cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.

**6 Cronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol**

| | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Gweddill a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol ar 1 Ebrill | 28,066 | 24,570 |
| Dyrannu enillion y Loteri | 13,801 | 12,899 |
| Llog i'w dderbyn | 1,600 | 1,571 |
| Ennill nas gwireddwyd/(colled) ar fuddsoddiadau yng Nghronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol | (201) | 173 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (10,719) | (11,147) |
| Gweddill a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth | **32,547** | 28,066 |

Efallai y bydd y gweddill ar 31 Mawrth 2002 a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol yn newid gan fod yr archwiliad o'r gronfa yn anghyflawn. Caiff unrhyw addasiadau sy'n deillio o'r archwiliad hwnnw eu hadlewyrchu yng nghyfrifon 2002/2003 y Cyngor. Yr addasiad cyfatebol ar gyfer 2000/2001 a wnaed yn y cyfrifon hyn oedd cynnydd mewn llog a dderbyniwyd o £36,000.

**7 Dyledwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn**

| | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Dyledwyr a rhagdaliadau amrywiol | **3** | 17 |

## 8 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2002** £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 12 | 4 |
| Dyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru | 181 | 148 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 50 | 39 |
| | **243** | 191 |

Mae'r swm sy'n ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Ad-daliadau o gostau a ddosrannwyd | | |
| - Staff | 53 | 66 |
| - Gorbenion | 26 | 37 |
| - Costau ailstrwythuro | 62 | - |
| Tâl a godwyd am ddefnyddio asedau | 40 | 45 |
| | 181 | 148 |

## 9a Ymrwymiadau grant amhenodol

| | £'000 Capital | £'000 Arts for All | **2002** £'000 Total | 2001 £'000 Total |
|---|---|---|---|---|
| Ymrwymiadau amhenodol ar 1 Ebrill | 4,960 | 655 | 5,615 | 8,819 |
| Ymrwymiadau amhenodol a wnaed yn y flwyddyn | 6,181 | 7,175 | 13,356 | 13,904 |
| Cyfanswm y cynigion grant a wnaed | 11,141 | 7,830 | 18,971 | 22,723 |
| Cynigion nas derbyniwyd | (7) | (22) | (29) | (108) |
| Ymrwymiadau amhenodol a drosglwyddwyd i ymrwymiadau penodol | (10,014) | (6,914) | (16,928) | (17,000) |
| Ymrwymiadau amhenodol ar 31 Mawrth | 1,120 | 894 | **2,014** | 5,615 |

## 9b Ymrwymiadau grant penodol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymrwymiadau penodol ar 1 Ebrill | 23,902 | 5,117 | 29,019 | 23,133 |
| Ymrwymiadau penodol yn ystod y flwyddyn | 10,014 | 6,914 | 16,928 | 17,000 |
| Symiau nas talwyd | (1,033) | (246) | (1,279) | (1,221) |
| Codwyd ar y cyfrif Incwm a Gwariant | 8,981 | 6,668 | 15,649 | 15,779 |
| Grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (4,727) | (3,947) | (8,674) | (9,893) |
| Ymrwymiadau penodol ar 31 Mawrth | 28,156 | 7,838 | **35,994** | 29,019 |
| | | | | |
| Ymrwymiadau penodol | | | | |
| sy'n daladwy o fewn blwyddyn | 4,862 | 5,376 | 10,238 | 14,137 |
| sy'n daladwy ar ôl blwyddyn | 23,294 | 2,462 | 25,756 | 14,882 |
| | 28,156 | 7,838 | **35,994** | 29,019 |

## 10 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Ar 4 Medi 2000 cymeradwyodd y Cyngor y penderfyniad i ailstrwythuro. O ganlyniad roedd cyfrifon 2000/2001 yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol ar gyfer costau yr oedd y Cyngor yn amlwg yn ymrwymedig iddynt. Cynhwyswyd darpariaeth addas hefyd yn y cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol.

| | £'000 |
|---|---|
| Darpariaeth ar 1 Ebrill 2001 | 21 |
| Llai'r swm a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (21) |
| Darpariaeth ar 31 Mawrth 2002 | - |

## 11 Symudiad yng nghronfeydd y Loteri

| | 2002 £'000 | 2001 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfrif Incwm a Gwariant ar 1 Ebrill | (456) | 1,924 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn arian y Loteri am y flwyddyn | (1,742) | (2,380) |
| Cyfrif Incwm a Gwariant ar 31 Mawrth | **(2,198)** | (456) |

## 12 Rhwymedigaethau amodol

**a** Mae'r cais a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol hyd at 31 Mawrth 2001 bellach wedi ei setlo o blaid y Cyngor.Mae un cais yn erbyn y Cyngor heb ei setlo ar o hyn o bryd. Mae sail y cais yn cael ei herio. Pe bai'r Cyngor yn colli'r cais hwn, gallai'r Cyngor fod yn atebol i dalu iawndal a chostau. Ni ddatgelir yr atebolrwydd mwyaf posibl yma, fel y caniateir gan FRS 12, oherwydd gallai datgelu gwybodaeth o'r fath beryglu sefyllfa'r Cyngor.

**b** Ar 31 Mawrth 2002 cynhwyswyd croniadau o £62,000 yn y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y costau ailstrwythuro y gellir eu rhagweld gyda chryn sicrwydd. Yn ogystal, efallai bod costau eraill sy'n gysylltiedig â'r broses, a rhagwelir na fydd y rhain yn fwy na £180,000 (2000/2001: £542,000). Datgelwyd rhwymedigaeth amodol briodol hefyd yn y cyfrif gweithgareddau cyffredinol.

## 13 Trafodion partïon cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig a rhoddir manylion trafodion gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyfrifon ar wahân sy'n cwmpasu gweithgareddau cyffredinol y Cyngor.

Gweinyddir Cronfa Ddosbarthu y Loteri Genedlaethol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn nid oedd gan y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon heblaw'r rhai a ddangosir yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

### Sefydliadau eraill

Roedd y Cyngor yn aelod o Sgrîn, Asiantaeth Cyfryngau Cymru ("Sgrîn"), cwmni wedi ei gyfyngu gan warant. Dyfarnwyd un grant o £147,800 i Sgrîn yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, talodd y Cyngor £45,147 i Sgrîn mewn perthynas â gwasanaethau monitro prosiectau ffilm a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2002.

### Unigolion

Yn ystod y flwyddyn, ymgymerodd aelodau'r Cyngor, neu bartïon cysylltiedig eraill (a oedd yn aelodau o'r teulu agos) â thrafodion ariannol perthnasol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ei rôl fel dosbarthwr y Loteri. Cofnodir trafodion ariannol perthnasol â'r Cyngor mewn perthynas â'i weithgareddau cyffredinol yn y cyfrifon ar wahân sy'n cwmpasu'r gweithgareddau hynny. Ni fu unrhyw drafodion ariannol perthnasol gyda staff rheoli allweddol nac aelodau agos o'u teulu.

### Aelodau'r Cyngor

Roedd nifer o aelodau'r Cyngor a/neu eu teulu agos yn aelodau o'r Byrddau Rheoli (neu gyfatebol) neu roeddent yn uwch gyflogeion sefydliadau y cynigiwyd grantiau'r Loteri iddynt gan y Cyngor yn 2001/2002. Ymhob achos o'r fath, yn unol â Chod Arfer Gorau'r Cyngor, nid oedd yr aelod dan sylw yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod pan drafodwyd y cais.

| Aelod | Sefydliad | Trafodyn (nifer) | Cyfanswm y Grantiau £ |
|---|---|---|---|
| **Sybil Crouch** | | | |
| (Teulu) - Cynghorydd | Dinas a Sir Abertawe (gan gynnwys Oriel Gelf Glynn Vivian a Theatr y Grand) | Grant (3) | 204,291 |
| Aelod o'r Bwrdd | Gŵyl Ffilmiau Cymru a'r Byd yn Un | Grant (1) | 17,840 |

| Aelod | Sefydliad | Trafodyn (nifer) | Cyfanswm y Grantiau £ |
|---|---|---|---|
| **Dai Davies** | | | |
| (Teulu) – Cyfarwyddwr | Sgript Cymru | Grant (1) | 32,005 |
| **Roger Davies** | | | |
| Is-lywydd | Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen | Grant (1) | 64,000 |
| **Stephen Garrett** | | | |
| Aelod o’r Pwyllgor | Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Warws Riverside | Grant (1) | 61,166 |
| **Ellen ap Gwynn** | | | |
| (Teulu) - Cyflogai | Sgrîn, Asiantaeth Cyfryngau Cymru | Grant (1) | 147,800 |
| **Geraint Lewis** | | | |
| Aelod o bwyllgor | Celfyddydau a Busnes Cymru | Grant (1) | 20,000 |
| Aelod o bwyllgor | Cerdd Byw Nawr! Cymru | Grant (1) | 21,110 |
| **Alan Lloyd** | | | |
| Aelod o’r Cyngor | Dinas a Sir Abertawe (gan gynnwys Oriel Gelf Glynn Vivian a Theatr y Grand) | Grant (3) | 204,291 |
| **Penny Ryan** | | | |
| Aelod o bwyllgor | Gŵyl Gelfyddydol Llwynderw | Grant (1) | 925 |
| (Teulu) - Cyflogai | Cerdd Byw Nawr! Cymru | Grant (1) | 21,110 |
| **Clare Thomas** | | | |
| Aelod o’r Bwrdd | Dawns Dyfed | Grant (1) | 118,529 |